Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 11 Mehefin 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(137)v4

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid: Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi – Adroddiad Blynyddol 2013 (30 munud)

### 4 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Datganiad Polisi ar Addysg Uwch (45 munud)

### 5 Rheoliadau Prentisiaethau (Amodau Cwblhau Cymreig Amgen) 2013 (15 munud)

NDM5261 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Prentisiaethau (Amodau Cwblhau Cymreig Amgen) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mai 2013.

**Dogfennau Ategol**

Rheoliadau Prentisiaethau (Amodau Cwblhau Cymreig Amgen) 2013
Memorandwm Esboniadol – (*Saesneg yn unig)*

**6 Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd) 2013 (15 munud)**
NDM5131 Carwyn Jones (Pen-y-Bont ar Ogwr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno, yn unol ag adran 9(6) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Gorchymyn y Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd) 2013, yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Ionawr 2013.

Dogfennau Ategol
Gorchymyn y Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd) 2013 – *(Saesneg yn unig*)
Memorandwm Esboniadol – *(Saesneg yn unig)*
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**7 Dadl: Y frech goch a phwysigrwydd rhaglenni brechu (60 munud)**
NDM5260 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r ymateb i'r achosion diweddar o'r frech goch; a

2. Yn cydnabod pwysigrwydd rhaglenni brechu plant.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 – Elin Jones (Ceredigion)

Ychwanegu fel pwynt 2 newydd ac ailrifo'n unol â hynny:

Yn mynegi ei ddiolch i staff gweithgar Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg a swyddogion cyhoeddus eraill yn Abertawe ac mewn mannau eraill am y gwaith y maent wedi ei wneud wrth fynd i'r afael â'r achosion o'r frech goch.

Gwelliant 2 – William Graham (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am ymholiad cyhoeddus llawn ac annibynnol er mwyn dysgu gwersi yn sgîl

yr achosion hyn, ac i leihau'r tebygrwydd o ragor o achosion yn y dyfodol.

Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder ynghylch arferion rhai cwmnïau preifat o ran marchnata brechlynnau heb eu trwyddedu a phresgripsiwn yn unig, ac am yr honiadau camarweiniol a wnaethpwyd gan rai clinigau brechiad sengl ynghylch y brechlyn MMR cyfun.

**Cyfnod Pleidleisio**

**8 Dadl Fer- gohiriwyd o 8 Mai 2013 (30 munud)**
**NDM5234 Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru)** Gwybod am y Gwenyn:

Rôl gwyddoniaeth o ran gwarchod iechyd gwenyn fel peillwyr.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 12 Mehefin 2013

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 6 Mehefin 2013 i'w hateb ar 11 Mehefin 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau GIG yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)1113(FM)

2. Elin Jones (Ceredigion): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ba drafodaethau y mae wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch y newidiadau arfaethedig i gymorth cyfreithiol? OAQ(4)1116(FM)W

3. Eluned Parrott (Canol De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y teithiau hedfan o faes awyr Caerdydd? OAQ(4)1112(FM)

4. Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau canser yng Nghymru? OAQ(4)1106(FM)

5. Sandy Mewies (Delyn): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i fesurau atal llifogydd yn yr Wyddgrug? OAQ(4)1111(FM)

6. Julie James (Gorllewin Abertawe): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod gennym wasanaethau cyhoeddus cadarn yn Abertawe? OAQ(4)1115(FM)

7. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer twf economaidd yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)1120(FM)

8. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Fil Cynllunio arfaethedig Llywodraeth Cymru? OAQ(4)1107(FM)

9. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer integreiddio'r broses o ddarparu gwasanaethau iechyd a chymdeithasol? OAQ(4)1110(FM)

**10. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn)**: Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith ar economi Cymru petai'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd? OAQ(4)1104(FM)W

**11. Nick Ramsay (Mynwy)**: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynnydd Llywodraeth Cymru i gyflwyno band eang mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru? OAQ(4)1108(FM)

**12. Keith Davies (Llanelli)**: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer Maes Awyr Caerdydd? OAQ(4)1114(FM)W

**13. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**: Pa gamau y mae'r Prif Weinidog yn eu cymryd i wella triniaeth i bobl sydd â chanser ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)1119(FM)

**14. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**: A wnaiff y Prif Weinidog roi gwybodaeth am y ffigurau diweddaraf ar gyfer amseroedd aros i gleifion canser? OAQ(4)1117(FM)

**15. David Rees (Aberafan)**: Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael â Deoniaeth Cymru ynghylch lleoedd hyfforddi ar ôl ad-drefnu gwasanaethau iechyd yng Nghymru? OAQ(4)1118(FM)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dydd Mawrth 18 Mehefin a dydd Mercher 19 Mehefin 2013

Dydd Mawrth 25 Mehefin a dydd Mercher 26 Mehefin 2013

Dydd Mawrth 2 Gorffennaf a dydd Mercher 3 Gorffennaf 2013

*********************************************************************

Dydd Mawrth 18 Mehefin 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Strategaeth Forol a Physgodfeydd Cymru (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Darparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Yr Adolygiad Annibynnol o Argaeledd Cyllid ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig eu Maint yng Nghymru: Adroddiad Cyntaf (30 munud)
- Dadl Cyfnod 3 ar Fil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) o dan Reol Sefydlog 26.44 (90 munud)
  Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.
  Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47. Os derbynnir y cynnig:
  Cynnig Cyfnod 4 i gymeradwyo Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) o dan Reol Sefydlog 26.47

Dydd Mercher 19 Mehefin 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Dadl yn ceisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ynghylch Meysydd Carafanau Gwyliau (Cymru) (Darren Millar) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru) (30 munud)

Dydd Mawrth 25 Mehefin 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Anghenion Dysgu Ychwanegol (30 munud)
- Dadl: Y Papur Gwyn ynghylch Tai – Y wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r Papur Gwyn (60 munud)
- Dadl: Gofal Sylfaenol a'r Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal (60 munud)

Dydd Mercher 26 Mehefin 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar Adroddiad 03-13 y Pwyllgor Safonau i'r Cynulliad ar Lobïo a Grwpiau Trawsbleidiol (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer – Jenny Rathbone (Canol Caerdydd) (30 munud)

Dydd Mawrth 2 Gorffennaf 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Cyflwyno'r Bil Addysg (Cymru) (60 munud)
- Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Diwygiadau i Ddeddf Addysg 1996) (Cymru) 2013 (15 munud)
- Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2013 (15 munud)
- Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) o dan Reol Sefydlog 26.44 (90 munud)

  Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

  Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47. Os derbynnir y cynnig:

  Cynnig Cyfnod 4 i gymeradwyo'r Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) o dan Reol Sefydlog 26.44.

Dydd Mercher 3 Gorffennaf 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Drafnidiaeth Gyhoeddus Integredig yng Nghymru (60 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Horizon 2020: Cyfnod 2 (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer – Nick Ramsay (Mynwy) (30 munud)